Diogelwch E- Sicrhau diogelwch eich plentyn.

Y ffordd orau i sicrhau diogelwch eich plentyn wrth ddefnyddio'r We a thechnolegau newydd yw i siarad â fe/hi a sicrhau eu dealltwriaeth o'r rheolau syml yma:

- Peidiwch byth a rhoi manylion personol i" ffrindiau" ar y We. Defnyddiwch llysenw wrth logio arno a pheidiwch rhannu eich enw llawn,
  cyfeiriad e bost, rhif ffon symudol, enw eich ysgol na lluniau o'ch hunan na'ch
  ffrindiau. Gall lluniau ar y We gael eu newid a'u dosbarthu heb ganiatad.

- Trafodwch a'ch plentyn am yr hyn maent yn gwneud ar y We ac i bwy meant
  yn siarad. Gofynnwch am esboniad o'r hyn maent yn defnyddio sy'n anghyfarw-ydd i chi. Cadwch lygad ar brofiadau eich plentyn ar y We trwy osod y cyfrifiadur yn yr ystafell fyw. Fe fydd llai o siawns iddo gamfihafio'n anaddas, (er enghraifft ar y Webcam) ac fe fydd eu ffrindiau yn gweld eu bont yn ystafell deuluol.

- Os derbynnir neges anffafriol peidiwch ag ateb, ond cadwch y neges a'i dangos i oedolyn yn y teulu.

- Dydy e bostiau sbwriel / SPAM ddim yn wir; peidiwch ag ateb nai danfon ymlaen – dilëwch nhw.

- Peidiwch agor ffeiliau o ddieithriaid. Gallent gynnwys firws neu lluniau neu fideo anaddas.

- Ffrind ar y We yw person nad ydych wedi cyfarfod erioed. Er adnabod nhw am amser, cofiwch fod rhai pobl yn gallu dweud celwydd ac felly cadwch y ffrindiau yma ar y We. Peidiwch cyfarfod a'r ffrindiau o'r We heb oedolyn cyfrifol.

- Rhaid sicrhau sut i flocio rhywun ar y We a'u cofnodi os teimlwch yn anghyffyrddus am unrhywbeth.

Sicrhewch fod eich plentyn yn medru siarad a rhannu pethau a chi ac yn gallu dweud os oes rhywbeth o'i le.

Peidiwch beio'ch plentyn, dangoswch eich ffydd ynddynt.